

Gwasanaeth y **TOWN RIDER**



Yn Gwasanaethu Pen-y-Bont ar Ogwr a'r Cylch

Yn cael ei weithredu gan
GLUDIANT OTED

Uned 1a Australian Terrace
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 1LY

Ffôn: 01656 669665

Cynnwys

1. Gwybodaeth Gyffredinol	2
2. Ardaloedd Gweithredu.....	2
3. Ymuno â'r Cynllun	2
4. Archebu Taith	3
4.1 Gwybodaeth Sydd ei Hangen Wrth Archebu	3
4.2 Canslo Taith.....	3
4.3 Mathau o Deithiau a Phrisiau Tocynnau	4
4.4 Ar Ddiwrnod eich Taith.....	4
5. Sylwadau neu Gŵynion.....	4
6. Manylion Cyswllt.....	5

Gwybodaeth Am ein Gwasanaeth ‘Town Rider’

1. Gwybodaeth Gyffredinol

Mae ‘Town Rider’ yn wasanaeth Bws Cymunedol fforddiadwy â mynediad cadeiriau olwyn sy’n ymateb i’r galw. Mae’n gwasanaethu wardiau tref Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cael ei weithredu gan Gludiant OTED – elusen leol ddielw. Caiff deiliaid cerdyn teithio rhatach deithio am ddim ar y cynllun.

Mae ‘Town Rider’ wedi’i dargedu at bobl sy’n ei chael hi’n anodd defnyddio’r prif wasanaethau bysiau ac mae ar gael i breswylwyr o fewn ardaloedd dynodedig ym Mhen-y-bont (gw. adran 2). Mae gyrwyr wrth law i helpu teithwyr i fynd ar y cerbydau ac i ddisgyn a byddan nhw hyd yn oed yn helpu i gario bagiau siopa i’r drws.

Mae ‘Town Rider’ yn gweithio o ddrws i ddrws. Mae’n wasanaeth sy’n dibynnu ar argaeledd ac amserlenni canllaw a fydd yn amrywio yn ôl y galw am gyrchfannau teithio mae pobl yn gofyn amdanynd nhw ar unrhyw ddydd penodol. Gall teithwyr ddefnyddio’r gwasanaeth i fynd i wasanaethau hanfodol lleol fel siopau groser, archfarchnadoedd, gwasanaethau iechyd a lles ac ati neu hyd yn oed ymweld â McArthur Glen. Yn wahanol i wasanaethau cludiant cymunedol eraill neu dacsis, nid y teithwyr sy’n archebu’r gwasanaeth fydd yr unig ddefnyddwyr ar y bws ac maen nhw’n debygol o rannu’r cerbyd gyda theithwyr eraill sydd wedi archebu ymlaen llaw ac yn teithio i’r un cyrchfan neu i un sy’n weddol agos.

Ar hyn o bryd mae ein hardal weithredu gofrestredig yn cynnwys y wardiau / ardaloedd drosodd:

2. Ardaloedd Gweithredu

Abercynffig	Coety	Pen-y-fai
Bracla	Corneli	Porth-cawl
Broadlands	Dan-y-Graig	Sarn
Bryncethin	Drenewydd yn Notais	Ton-du
Brynmenyn	Litchard	Trelales
Bryntirion	Llangrallo	Tŷ Bryngarw
Cefn Cribwr	Mynydd Cynffig	Wildmill
Cefn Glas	Pen-y-bont Ganolog	Y Pîl

3. Ymuno â’r Cynllun

Er mwyn cofrestru ar gyfer ein gwasanaethau bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais aelodaeth ‘Town Rider’. Does dim ffi ymaelodi.

Os nad oes ffurflen gyda chi, cysylltwch ag un o’n Cydlynwyr Cludiant ar 01656 669665 a bydd yn anfon ffurflen i’w chwblhau atoch chi. Dylid anfon ffurflenni yn ôl i’n swyddfa ac mae’r cyfeiriad ar waelod y ffurflen gais.

4. Archebu Taith

- Mae'n RHAID i BOB cais am daith gael ei wneud trwy gysylltu â'n cydlynnydd cludiant ar 01656 669665
- Mae'n RHAID gwneud POB cais am daith cyn 4.30pm o leiaf 24 awr ymlaen llaw h.y. dylid gwneud cais am deithiau ar ddydd Llun erbyn dydd Gwener fan bellaf; dylid gwneud cais am deithiau ar ddydd Mawrth erbyn dydd Llun fan bellaf ac ati.
- Pan fydd y swyddfa'n brysur neu tu allan i oriau swyddfa, mae gwasanaeth ateb ffôn ar gael i chi adael eich enw, eich rhif a'ch neges i'r cydlynnydd eich ffonio chi yn ôl i wneud y trefniadau. Dylech nodi **na fydd** eich archeb wedi'i chadarnhau hyd nes i chi siarad â'n cydlynwyr cludiant.

Mae pob cais am daith yn dibynnu ar argaeledd ac ar sail 'cyntaf i'r felin gaiff falu'. Dylid cofio, er ein bod yn ceisio darparu ar gyfer cymaint o geisiadau ag sy'n bosibl, gall ffactorau eraill fel yr amserau rydych chi'n gofyn amdany'n nhw, mannau codi neu fanylion cyrchfan effeithio ar y broses archebu.

Gall hyn olygu y gall fod angen i chi fel y defnyddiwr fod yn hyblyg o ran amserau / dyddiadau ar deithiau dianghenraid lle bo modd.

4.1 Gwybodaeth sydd ei Hangen wrth Archebu

Bob tro byddwch chi'n archebu taith, dylech roi gwybod i ni am y canlynol:

- Dydd, Dyddiad ac Amser y mae angen y cludiant
- Os byddwch yn mynd i apwyntiad, bydd angen amser yr apwyntiad arnon ni
- Y cyfeiriad lle rydych chi eisiau i ni eich casglu
- Enw a chyfeiriad eich cyrchfan
- Amser y daith yn ôl (os oes angen)
- Gwybodaeth ychwanegol e.e. ydych chi'n defnyddio cymorth cerdded neu gadair olwyn?
- A fydd cydymaith h.y. ffrind neu aelod o'r teulu yn teithio gyda chi i'ch cynorthwyo?
- Unrhyw broblemau parcio neu fynediad gyda'ch cyfeiriad neu'ch cyrchfan.

4.2 Canslo Teithiau sy wedi'u Harchebu

Os na allwch wneud taith am unrhyw reswm, dylech ffonio i ganslo'r daith cyn gynted ag y bo modd. Mae peiriant ateb ar waith y tu allan i oriau agor y swyddfa a gallwch adael neges arno fe.

4.3 Mathau o Deithiau a Phrisiau Tocynnau

Rydych chi'n codi'ch tocyn yn uniongyrchol gan eich gyrrwr. Derbynnir cardiau teithio rhatach ar fysiau (gan gynnwys cardiau cydymaith) ar y gwasanaeth. Mae deiliaid cardiau'n teithio am ddim o dan Gynllun Teithio Rhatach Cymru Gyfan a weithredir gan Lywodraeth Cymru, ar yr amod eich bod yn dangos cerdyn dilys i'r gyrrwr bob tro dewch chi ar y cerbyd. Os nad oes cerdyn bysiau gyda chi ac os ydych yn teimlo eich bod yn gymwys i gael un, rhowch wybod i ni a gallwn eich cynghori am y broses o gael un.

Bydd angen i bob teithiwr arall dalu am docyn fel y canlyn:

Unffordd: £3.65*

Dwyffordd: £5.00*

* Mae prisiau tocynnau'n gywir adeg argraffu ac yn agored i newid. Dangosir rhybudd am unrhyw godiadau pris arfaethedig ar gerbydau 'Town Rider' o leiaf fis cyn iddyn nhw godi.

3.2 Ar Ddiwrnod eich Taith

- Fel arfer bydd y gyrrwr yn cyrraedd y man codi ar yr amser a gytunwyd (gan ddibynnu ar y traffig). Noder y gallai'r gyrrwr fod cymaint â 15 munud yn gynnwys neu'n hwyr ac felly dylech fod yn barod i gael eich casglu cyn yr amser codi a gytunwyd.
- Dylech sicrhau eich bod yn barod ac yn aros am y cludiant achos bod oedi am hyd yn oed ychydig o amser yn gallu cael effaith ar deithiau yn nes ymlaen yn y dydd.
- Bydd y gyrrwr yn swnio corn y bws i roi gwybod i chi eu bod nhw yno. Os ydych wedi nodi yn ystod y broses archebu fod angen cymorth arnoch o'ch drws i'r bws, bydd y gyrrwr yn gwybod hynny a bydd yn eich cynorthwyo chi.
- Unwaith byddwch chi ar y cerbyd, bydd y gyrrwr yn rhoi gwybod i chi am gost y daith ac yn rhoi tocyn i chi.
- Bydd y gyrrwr yn mynd â chi i'r cyrchfan(-nau) penodol a archebwyd ymlaen llaw. Fodd bynnag fel nodwyd eisoes, mae Town Rider yn wasanaeth bysiau ac fe all fod manau codi neu ddisgyn ychwanegol ar eich ffordd i'ch cyrchfan.

4 Sylwadau neu Gŵynion

Fel sefydliad dielw rydym bob amser yn fodlon derbyn sylwadau am y gwasanaeth ardderchog sy'n cael ei ddarparu gan staff a gwirfoddolwyr ymrwymedig Cludiant OTED. Fodd bynnag, rydym yn deall bod pethau weithiau yn mynd o chwith. Felly, byddem yn gwerthfawrogi'n fawr, os oes gyda chi unrhyw bryderon neu gŵynion am lefel y gwasanaeth, neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r cynllun, eich bod yn eu cyfeirio yn y lle cyntaf at y cydlynnydd a fydd yn prosesu eich cwyn neu'ch sylwadau. Os gwneir cwyn, cewch gopi o'n gweithdrefn gŵyno.

5 Manylion Cyswllt

Cydlynnydd Cludiant

Uned 1A Australian Terrace

Pen-y-bont ar Ogwr

CF31 1LY

Ffôn: 01656 669665

Ebost: info@oted.co.uk